



Polisi Gwrthfwlio

1. Rhesymeg

Credwn fod gan bawb yn Ysgol y Gwernant yr hawl i fwynhau bywyd ysgol mewn amgylchedd diogel a chyfeillgar. Mae bwlio o unrhyw fath yn atal hyn. Cyfrifoldeb pawb ydyw i atal bwlio ac mae'r polisi hwn yn cynnwys canllawiau i gefnogi hyn.

Lle mae bwlio yn bodoli, rhaid i'r dioddefwyr deimlo'n hyderus i ysgogi'r systemau gwrth fwlio sy'n yr ysgol er mwyn atal unrhyw fwlio pellach. Ein hamcan yw helpu i adeiladu ethos gwrth fwlio yn ein hysgol.

2. Diffiniad

Bwlio yw'r defnydd o ymddygiad bygythiol, galw enwau neu fwgwth **gyda'r bwriad o niweidio person arall**, gan arwain at boen a gofid i'r dioddefwr.

Gall bwlio fod yn rhywbeth tymor byr neu, os na chaiff ei ddatgelu nac ei wneud yn hysbys gall barhau am gyfnod o amser.

Gall bwlio fod yn:

- Emosiynol – bod yn anghyfeillgar, eithrio, pryfocio (e.e. cuddio llyfrau, ystumiau bygythiol)
- Corfforol - gwthio, cicio, taro, pwnio neu unrhyw ddefnydd o drais
- Hiliol – gwawdio hiliol, graffiti, ystumiau
- Rhywiol – cyswllt corfforol diangen neu sylwadau bygythiol rhywiol
- Homoffobig – yn canolbwyntio, neu oherwydd mater rhywioldeb
- Geiriol – galw enwau, coegni, lledaenu straeon, pryfocio
- Seiber – pob maes y rhyngwyd, fel e-bost a chamddefnyddio ystafelloedd siarad ar y rhyngwyd, bygythiadau ffôn symudol drwy anfon negeseuon testun a chamddefnyddio galwadau technoleg - h.y. camera a chyfleusterau fideo

I'r dioddefwr mae'r bwlio:

- Yn fwriadol ac yn greulon
- Yn cael ei ailadrodd
- Yn anodd ei wrthsefyll
- Yn wahanol i weithredoedd ar hap
- Yn cael ei ddynodi gan 'anghydbwysedd pŵer' e.e. rhywun mwy pwerus neu rywun sy'n brifo person llai pwerus yn fwriadol

Gall bwlio ddigwydd yn y dosbarth, yn yr iard chwarae, yn y toiledau, ar y daith i'r ysgol a gartref, ar deithiau preswyl ac mewn seiberofod. Gall ddigwydd yn ystod neu tu allan i weithgareddau grŵp ysgol a rhwng teuluoedd.

3. Bwllis a'r Dioddefwyr

Efallai nad yw plentyn sy'n 'bwlio' yn berson 'drwg', ond nid yw'r ymddygiad mae ef/hi yn ei arddangos yn dderbyniol. Mae deall hyn yn sylfaenol i'r polisi hwn.

Yn aml, mae bwllis yn brin o sgiliau rhyngbersonol; lle mae bwlio yn digwydd mewn grŵp, bydd gan yr arweinwyr sgiliau cymdeithasol a deallusrwydd da; a gallant fod yn garismatig ond hefyd gyda'r gallu i lywio pobl ifanc.

Mae bwllis yn aml iawn yn berson sydd:

- Yn ddigariad ac yn brin o empathi
- Yn ymosodol, gan droi at drais yn hawdd
- Gyda sgiliau cyfathrebu a chydweithredu gwael
- Yn ansicr, o bosibl oherwydd problemau yn y cartref neu'r ysgol
- Yn teimlo'r angen i ennill rheolaeth neu bŵer
- Yn dweud celwydd ac yn dwyllodrus
- Angen gwneud argraff a chael sylw

- Gydag ymdeimlad gwael o gyfrifoldeb

Nid yw bwlio yn cynnwys pan mae dau berson yn cael anghytundeb neu'n ffraeo o bryd i'w gilydd.

4. Amcanion a nodau

Mae bwlio yn anghywir ac yn niweidio plant unigol; ond mae'n brin yn Ysgol y Gwernant. Rydym yn wylidwrus iawn a'r nod yw atal ymddygiad annerbyniol, drwy ddatblygu ethos cryf i'r ysgol lle rydym yn annog goddefiad, derbyniad a chydweithrediad, ac ar yr un pryd gwneud plant yn ymwybodol bod gan eu gweithredoedd ganlyniadau. Ein hamcan yw bod yn gyson yn ein hymatebion i unrhyw ddigwyddiadau o fwlio a allai ddigwydd ac rydym yn ffafrio ymarferion adferfol yn hytrach nag ymatebion awdurdodaidd.

Ein hamcanion yw creu amgylchedd lle mae'r holl blant yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i weithio a chwarae mewn harmoni a dysgu i ddatrys unrhyw wahaniaethau yn rhesymol ac yn gyfeillgar. Bydd pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn ymwybodol o'n gwrthwynebiad i fwlio, ac mae cyfrifoldebau pawb yn glir o ran cael gwared â bwlio.

5. Atal

Rydym yn darparu amgylchedd diogel lle gall pawb ddysgu heb bryder, ac mae mesurau ar waith i leihau'r tebygolrwydd o fwlio. Mae seiliau wedi eu gosod drwy'r Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol yn y Cyfnod Sylfaenol. Mae wedi'i ddatblygu yng Nghyfnod Allweddol 2 fel elfen o'r Fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer plant oedran 7 i 19 oed. Caiff ei gefnogi mewn gwersi Addysg Grefyddol, gweithgareddau trawsgwricwlaidd yn y dosbarth sy'n hyrwyddo cyfeillgarwch a chydweithrediad ac mewn gwasanaethau dyddiol. Caiff Wythnos Gwrth Fwlio blynyddol ei gynnal ym mis Tachwedd; bydd bydis ar yr iard chwarae yn cymysgu â'i gilydd a bydd 'bocs poeni' ar gael i bob disgybl sydd ddim am ddweud wrth athro/athrawes am ddigwyddiad o fwlio.

Mae ethos ag athroniaeth weithredol Ysgol y Gwernant yn golygu bod yr holl staff yn annog plant i barchu ei gilydd a'u heiddo. Caiff ymddygiad caredig/boneddigiaid ei gydnabod a'i wobrwyo yn gyson.

6. Rôl y Disgyblion

Caiff plant eu hannog i ymddiried mewn athrawon os teimlant fod bwlio'n digwydd; cânt eu cefnogi a byddwn yn archwilio eu pryderon yn gyflym, yn deg a thrylwyr.

7. Rôl yr athro/athrawes a'r staff cymorth

Mae'r holl staff yn yr ysgol yn cymryd unrhyw fath o fwlio o ddifrif; ni chaiff ei ganiatáu na'i esgusodi. Caiff plant eu hannog i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau o fwlio i oedolyn neu fydi yn yr ysgol neu i'w rhieni gartref. Gofynnir i rieni roi gwybod o'u pryderon i athro/athrawes eu plentyn i ddechrau.

Mae pob aelod o staff yn cwblhau hyfforddiant yn rheolaidd, sy'n eu darparu i ddod o hyd i fwlio ac i ddilyn y polisi a'r weithdrefn hon o ran rheoli ymddygiad.

Caiff cofnod ei gadw o'r digwyddiadau. Mae'r athro/athrawes dosbarth yn gyfrifol am hyn a bydd gofyn iddynt ffeilio copi o'r adroddiad a'r weithred a gymerir (Ffurflen cofnod o bryder i'w gwblhau) a'i gadw ar ffeil y disgyblion yn y swyddfa. Efallai bydd gofyn i ddisgyblion hŷn ysgrifennu cofnod eu hunain.

Rhaid i unrhyw ddigwyddiadau o fwlio sy'n digwydd yn ystod amser chwarae eu cofnodi ar lafar i'r athro/athrawes dosbarth ar ddiwedd egwyl neu sesiwn amser cinio gan yr oedolyn sy'n goruchwyllo.

Ar gyfer digwyddiadau ar unrhyw amseroedd eraill yn y dosbarth neu e.e. yn ystod nofio, yr athro/athrawes dosbarth yw'r cyswllt cyntaf i'w gofnodi.

Os yw plant o wahanol ddsbarthiadau yn rhan, gall hyn arwain at sawl athro/athrawes yn ymddwyn fel hwyluswyr.

Sut i ymdrin â digwyddiadau o fwlio – athrawon dosbarth

- Byddwch yn wylidwrus o arwyddion o fwlio.
- Rhaid i chi gofnodi digwyddiadau o ddifrif a'u harchwilio
- Peidiwch byth ag anwybyddu bwlio a ddrwgdybir
- Rhowch wybod i'r Pennaeth am y digwyddiad.
- Rhowch wrandawriad teg i bob plentyn
- Peidiwch â gwneud tybiaethau cynnar
- Gwrandewch yn ofalus i bob adroddiad – nid yw sawl plentyn yn dweud yr un fath o reidrwydd yn golygu eu bod yn dweud y gwir.
- Trafodwch faterion sy'n briodol i'r mater ac i'w hoedran a'u lefel o ddealltwriaeth.
- Os yw'n berthnasol, mabwysiadwch dull gweithredu o ddatrys problemau.

- Bydd athrawon dosbarth yn gwirio nad yw'r bwlio yn cael ei ailadrodd gan roi dyddiad ar y ffurflen yn y dyddiadur pan mae'r gwiriadau hyn wedi eu gwneud.
- Bydd y Pennaeth yn edrych ar y dyddiadur yn dymhorol. Bydd y dyddiadur digwyddiad yn dangos cofnod o unrhyw ddigwyddiadau a'r rhai a oedd gysylltiedig.

Os yw unrhyw fwlio yn digwydd rhwng aelodau'r dosbarth, bydd yr athro/athrawes yn ymdrin â'r mater yn syth. Gall hyn gynnwys cwnsela a chefnogaeth i'r dioddefwr; caiff amser ei dreulio gyda'r troseddwr; gan esbonio pam bod ei ymddygiad ef/hi yn anghywir; caiff y plentyn hwnnw ei herio i adlewyrchu ar eu hymddygiad, ystyried ei effeithiau ar eraill, ystyried y canlyniadau ac i ymarfer ataliaeth yn y dyfodol. Caiff y Pennaeth wybod.

Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i helpu atal bwlio ac i sefydlu amgylchedd o ymddiriedaeth a pharch tuag at bawb. Caiff drama, chwarae rôl a straeon ac ati eu defnyddio o fewn y cwricwlwm ffurfiol, i helpu disgyblion ddeall teimladau plant sy'n cael eu bwlio, ac ymarfer yr ataliaeth sydd ei angen i osgoi bwlio rhywun. Caiff amser cylch ei ddefnyddio i ganmol, gwobrwyo a dathlu llwyddiannau'r plant, gan helpu i greu awyrgylch positif. Caiff amgylchedd o barch ei annog bob amser.

8. Rôl y Pennaeth

Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am reoli'r ysgol yn ddyddiol; yn ystod y rhan fwyaf o amgylchiadau caiff digwyddiadau eu datrys o dan ei harweiniad hi.

Mae'r Pennaeth yn gosod amgylchedd yr ysgol o gefnogaeth a chanmol llwyddiant, gan wneud bwlio yn llawer llai tebygol. Pan mae plant yn teimlo fel eu bod yn bwysig ac yn perthyn i ysgol gyfeillgar a chroesawgar, mae bwlio yn llai tebygol i fod yn rhan o'u hymddygiad.

Cyfrifoldeb y Pennaeth ydyw i weithredu'r strategaeth gwrth fwlio yn yr ysgol, ac i sicrhau bod yr holl staff (staff dysgu a staff nad yw'n dysgu) yn ymwybodol o'r polisi hwn, ac yn gwybod sut i ddelio gyda digwyddiadau bwlio. Mae'r Pennaeth yn adrodd yn ôl i'r corff llywodraethu yn ôl y gofyn am effeithiolrwydd y polisi gwrth fwlio.

Mae'r Pennaeth yn sicrhau bod yr holl blant yn gwybod bod bwlio yn anghywir, a'i fod yn ymddygiad annerbyniol. Mae'r Pennaeth yn tynnu sylw'r plant i'r ffaith hwn pan yn briodol; er enghraifft, os yw digwyddiad yn digwydd, mae'r Pennaeth yn dewis defnyddio'r neuadd fel fforwm i drafod â phlant pam bod yr ymddygiad hwn yn anghywir, a pam y caiff disgybl ei gosbi.

Mae'r Pennaeth yn sicrhau bod yr holl staff, yn cynnwys staff amser cinio, yn derbyn hyfforddiant digonol i nodi ac ymdrin â'r holl ddigwyddiadau o fwlio.

Caiff y Pennaeth wybod am yr holl ddigwyddiadau o fwlio; bydd hi'n ymdrin yn uniongyrchol â'r digwyddiadau o fwlio sydd wedi'u profi neu heb eu datrys yn y lle cyntaf gan athrawon.

Caiff cofnod ysgrifenedig ei gadw mewn cyfarfodydd wedi hyn. Bydd yr holl gyfrifon yn gyfrinachol.

Caiff y plant sy'n gysylltiedig y cyfle i roi eu hadroddiad o'r digwyddiad(au). Caiff eu rhieni eu gwneud yn ymwybodol o'r digwyddiad ac am eu cyfweiliad â'r Pennaeth.

Caiff y sawl sydd wedi'i gyhuddo wybod y caiff eu perthynas ef/hi gyda'r dioddefwr ei fonitro'n agos ac os caiff yr ymddygiad ei ailadrodd, bydd gofyn i rieni fynychu cyfarfod gyda'r Pennaeth.

Bydd yr holl staff yn ymwybodol bod monitro yn angenrheidiol. Bydd y Pennaeth/athrawon yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r dioddefwr. Efallai bydd gofyn i unrhyw blentyn sy'n cael trafferth cyfathrebu gadw dyddiadur Cartref/Ysgol. Bydd rhieni yn ymwybodol o unrhyw gynnydd a gofynnir iddynt gysylltu â'r ysgol ar unwaith os oes unrhyw ddigwyddiadau pellach.

Os yw'r bwlio yn stopio, caiff y berthynas mewn unrhyw achos, ei fonitro'n agos am o leiaf tymor.

Os caiff y bwlio ei ailadrodd, caiff rhieni/gwarcheidwaid wybod. Caiff y broses ei ailadrodd fel o'r blaen, fodd bynnag caiff disgyblion eu monitro yn ddyddiol a byddwn yn ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau pellach os yw'r bwlio yn parhau.

Os yw'r bwlio yn parhau, caiff rhieni/gwarcheidwaid eu galw i'r ysgol i drafod y sefyllfa. Mae gan rieni/gwarcheidwaid gyfrifoldeb i gefnogi polisi gwrth fwlio'r ysgol, gan annog eu plentyn i fod yn aelod positif o'r ysgol.

Yn ystod y cam hwn, a gyda chydweithrediad rhieni/gwarcheidwaid, caiff cynllun ei gytuno arno i addasu ymddygiad y troseddwr. Bydd hyn yn cynnwys Dyddiadur Cartref/Ysgol lle bydd gofyn i rieni/gwarcheidwaid roi sylwadau a'i arwyddo, gall hyn gynnwys cosbau priodol, e.e. methu amser chwarae / amser gwobrwyo yn ystod y dosbarth. Caiff yr ymddygiad a'r berthynas ei fonitro yn agos a'i adolygu yn wythnosol gan y Pennaeth neu'r Pennaeth Cynorthwyol a'r rhieni/gwarcheidwaid.

Mewn achosion mwy difrifol, neu os nad yw'r mesurau dechreuol yn effeithiol, efallai y bydd y Pennaeth yn cysylltu â gwasanaethau partneriaeth; h.y. Cymorth Ymddygiad; Sesiynau hunan-barch 1:1; Uned Ymddygiad Cam wrth Gam. Gellir cysylltu â'r gwasanaethau hyn hefyd i gefnogi'r dioddefwr.

Mewn amgylchiadau mwyaf difrifol, ac os yw'r mesurau hyn i gyd yn methu, caiff gwaharddiad o'r ysgol ei ystyried.

Wedi i'r broses hon ei chwblhau ac mae'r rheini/gwarcheidwaid yn anfodlon; dylent gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr, Yr Athro J. Newton drwy swyddfa'r ysgol.

9. Rôl Cadeirydd y Llywodraethwyr

Os yw unrhyw riant yn anfodlon gyda'r ffordd mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r digwyddiad o fwlio, gall ef/hi ofyn i Gadeirydd y Llywodraethwyr ymchwilio i'r mater. Bydd ef yn cyfeirio'r gwyn i'r Pwyllgor Cwynion. Bydd y corff llywodraethu yn rhoi gwybod i'r Pennaeth o fewn deg diwrnod o unrhyw gais gan riant i ymchwilio i'r digwyddiad o fwlio, gan ofyn iddi gynnal ymchwiliad ac i gasglu tystiolaeth i'r achos, a chaiff hyn ei adrodd yn ôl i gynrychiolydd y corff llywodraethu, gan amlaf Cadeirydd y Pwyllgor Cwynion.

10. Rôl y Llywodraethwyr

Mae'r corff llywodraethu yn cefnogi'r Pennaeth yn ei hymdrechion i ddileu bwlio o'r ysgol. Ni fydd y corff llywodraethu yn caniatáu nac yn esgusodi bwlio a byddwn yn cymryd unrhyw ddigwyddiad o fwlio o ddifrif ac ymdrin â'r digwyddiad yn briodol.

Mae'r corff llywodraethu yn monitro unrhyw ddigwyddiadau o fwlio, ac yn adolygu effeithiolrwydd y polisi yn rheolaidd. Rhaid i'r llywodraethwyr gadw cofnodion manwl gywir o'r holl ddigwyddiadau o fwlio a rhoi gwybod i'r corff llywodraethu am effeithiolrwydd y strategaethau gwrth fwlio yn ôl y gofyn.

Byddant yn ymdrin ag unrhyw gwynion sy'n cael eu cyflwyno i'r Corff Llywodraethu o dan Weithdrefn Cwynion ffurfiol yr ysgol.

Bydd Pwyllgor Cwynion y corff llywodraethu yn clywed cynrychioliadau gan yr achwynwr ynglŷn â'r materion nad ydynt wedi eu datrys yn ystod camau cynharach. Byddant yn archwilio cofnodion ac adroddiadau ac ystyried y dystiolaeth. Byddwn yn gofyn am gyngor yr Awdurdod Lleol fel y bo'n briodol. Caiff penderfyniad ei gytuno arno gan wneud yr achwynwr yn hysbys o'r canlyniad. Er gwybodaeth caiff y corff llywodraethu llawn wybod am benderfyniadau'r pwyllgor.

11. Rôl Rhieni/Gwarcheidwaid

Dylai rhieni/gwarcheidwaid sy'n poeni bod eu plentyn yn cael eu bwlio neu sy'n credu bod eu plentyn yn dangos ymddygiad o fwlio, gysylltu ag athro/athrawes dosbarth eu plentyn ar frys. Os nad ydynt yn fodlon gyda'r ymateb, dylent gysylltu â'r Pennaeth. Os ydynt yn parhau i fod yn anfodlon, rhaid iddynt ddilyn gweithdrefn cwynion yr ysgol.

12. Gwrthdaro buddiannau

Cyfrifoldeb unigol pob aelod o staff yr ysgol ydyw i ddatgan unrhyw fath o wrthdaro buddiannau i'r Pennaeth. Cyfrifoldeb unigol y Pennaeth neu unrhyw aelod o'r Corff Llywodraethu ydyw i ddatgan unrhyw fath o wrthdaro buddiannau i Gadeirydd neu Is-Gadeirydd y Corff Llywodraethu, fel y bo'n briodol.

13. Monitro ac adolygu

Caiff y polisi hwn ei fonitro yn rheolaidd gan y Pennaeth, sy'n rhoi gwybod i'r llywodraethwyr am ei effeithiolrwydd yn ôl y gofyn.

Cyfrifoldeb y llywodraethwyr yw'r polisi gwrth fwlio hwn; caiff ei effeithiolrwydd ei adolygu yn flynyddol gan y Corff Llywodraethu. Bydd y llywodraethwyr yn dadansoddi'r wybodaeth am batrymau o ddigwyddiadau, pobl, lleoedd neu grwpiau; caiff hyn ei wneud drwy archwilio llyfrau log gwrth fwlio'r ysgol, lle caiff digwyddiadau o fwlio eu cofnodi, a'u trafod gyda'r Pennaeth.

Mynd i'r afael â bwlio yn Ysgol y Gwernant

